Cofnodion cyfarfod hybrid y **CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 18 Chwefror 2026, am 6pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, J. Kenney, Ms J. L. McAlpine, W. Price, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, A. R. Rutherford a Miss C. L. Williams

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mr A. O Williams – Swyddog Cyllid
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc y Dref

## 141. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs S. L. Connolly a Mrs D. L. King.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod a chyfeiriodd at waeledd iechyd y Cynghorydd Chamberlain-Jones, ar ran yr aelodau a'r staff, gan ddweud ein bod yn meddwl amdani hi a'i theulu.

## 142. DATGAN BUDDIANNAU

Gofynnodd y Maer a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol neu fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu i'w datgan yng nghyswllt unrhyw eitem o fusnes i'w ystyried ar yr agenda.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 143. COFNODION

Cyfarfod y Cyngor - 21 Ionawr 2026 - Cofnodion rhifau 127 - 140

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. Walker ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 21 Ionawr 2026 - Cofnodion rhifau 29 - 32

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. Walker a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnodion cywir.*

## 144. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS IONAWR 2026 (ATODLEN A)

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad y gwasanaethau a ddarparwyd |
|---|---|---|---|
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2150 | BT | 378.00 | Gwasanaeth band eang Neuadd y Dref |
| Amherthnasol | Tesco | 9.00 | Llogi ffôn symudol |
| 1999 | Cyngor Sir Ddinbych | 838.00 | Ardrethi Annomestig Swyddfeydd Dinesig Canolfan Cymuned Ffordd Wellington – taliad 10 o 10 |
| 2154 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 9,059.17 | Tâl net i bedwar aelod o staff – mis Ionawr 2026 |
| 2152 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,455.54 | Talu wrth Ennill – mis Rhagfyr 2025 |
| 2153 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 3,280.52 | Cyfraniadau pensiwn – mis Rhagfyr 2025 |
| 2034 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,255.83 | Swyddog Apeliadau Budd-daliadau – taliad 10 o 12 yn 2025/26 |
| Amherthnasol | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol |
| 2162 | Cyngor Sir Ddinbych | 32,037.00 | Benthyciad SC2 – taliad 3 o 3 yn 2025/26 |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **50,371.26** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm £ |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif hysbysiad 31 diwrnod | 198.18 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif adneuo 1 mis | 800.29 |
| Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | Ad-daliad Tref ar Werth Chwarter 3 (mis Hydref – mis Rhagfyr 2025) | 7,048.77 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **8,047.24** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 145. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Maer at Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (rhestr o daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Taleb | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 2171 | Amazon UK | Papur llungopïwr x 2 | £42.98 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2172 | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Ffi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 2026 | £47.00 |
| 2173 | Maer Prestatyn | Dau docyn i'r Ddawns Elusennol ar 20 Mawrth 2026 | £72.00 |
| 2174 | Aldi | Lluniaeth ar gyfer y diwrnod 'cwrdd i ffwrdd' | £9.64 |
| 2175 | JDH Business Services Ltd | Ffi'r Archwiliad Mewnol Interim 2025/26 | £505.20 |
| 2176 | Cyngor Sir Ddinbych | Tâl gwasanaeth y Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington – Chwarter 3 | £3,685.50 |
| 2177 | BJS Solutions | Pecyn cyfarfod hybrid Owl | £978.12 |
| 2178 | Cyngor Sir Ddinbych | Cytundeb goleuadau 2025/26 | £13,111.20 |
| 2179 | Delwedd Ltd | Ffi flynyddol lletya a chynnal a chadw'r wefan | £863.99 |
| 2180 | Y Cynghorydd A Walker | Lwfans y Maer – taliad 3 o 3 am £433.33 llai £21.25 ar gyfer ffi bancio'r Gronfa Elusen | £412.08 |
| 2180 | Lloyds Bank – Cronfa Elusen | Cyfraniad y Maer o £21.25 ar gyfer ffi bancio'r Gronfa Elusen | £21.25 |
| 2180 | Y Cynghorydd A Walker | Lwfan Uwch Aelod – taliad 3 o 3 | £166.66 |
| 2180 | Y Cynghorydd J Butterfield | Lwfans y Dirprwy Faer – taliad 3 o 3 am £133.33 llai £78.00 am docynnau i ddigwyddiadau | £55.32 |
| 2180 | Y Cynghorydd J Butterfield | Lwfans Uwch Aelod – taliad 3 o 3 | £166.66 |
| 2181 | Cyfrif Elusen Cyngor Tref Rhuddlan | Dau docyn i ddigwyddiad elusennol ar 10 Ebrill 2026 | £50.00 |
| 2182 | Canda Copying Ltd | Rhentu'r llungopïwr | £259.32 |
| 2183 | Canda Copying Ltd | Ffioedd y llungopïwr | £172.78 |
| 2184 | Sandra Williams | Gwasanaeth cyfieithu | £146.52 |
| 2185 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Tri thocyn i ddigwyddiad elusennol ar 11 Ebrill 2026 | £114.00 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£20,880.22** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 146. DATGANIAD BLYNYDDOL 2024/25 – CASGLIAD YR ARCHWILIAD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyllid ac at adroddiad yr archwilydd allanol (Archwilio Cymru) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) i'r aelodau eu cymeradwyo.

Cynghorodd y Clerc fod Archwilio Cymru wedi datgan archwiliad diamod, gan godi un mater yn unig, sef nad oedd fersiwn derfynol datganiad blynyddol archwiliedig 2023/24 wedi'i ddiweddaru ar ein gwefan. Roedd hyn wedi ei gywiro.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad Blynyddol 2024/25.*

**147. ADRODDIAD INTERIM YR ARCHWILYDD MEWNOL 2025/26**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyllid ac at adroddiad yr archwilydd mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Roedd yr archwilydd mewnol wedi nodi dau fater:

- Ein bod wedi cael crynodeb archeb yn unig ar gyfer un pryniant o Amazon, pan ddylid bod wedi cyflwyno anfoneb. Cywirwyd hyn.

- Y dylem fod wedi gofyn i'n hymgynghorydd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i roi tri dyfynbris i'r Cyngor Tref am y pum gliniadur a brynwyd y llynedd, gan fod cyfanswm y gost yn fwy na'r trothwy £5,000, yn unol â'n rheoliadau ariannol. Roedd hyn yn gamgymeriad a nodwyd, ac ni fydd yn digwydd eto.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad, gyda'r ddau fater a nodwyd yn cael eu dirprwy i'r Is-bwyllgor Asesu Risgiau i'w monitro.*

**148. Y CYFRIFON HYD AT DDIWEDD MIS RHAGFYR 2025 A'R RHAGFYNEGIADAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad hi a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn amlinellu sefyllfa ariannol y Cyngor Tref ar 31 Rhagfyr 2025 a'r rhagfynegiadau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol.

Gofynnodd y Clerc i'r aelodau nodi'r prif amrywiaethau yn y rhagfynegiadau a'r rhagfynegiad o warged o £2,216 ar ddiwedd y flwyddyn.

Hefyd, lefel yr ansicrwydd a oedd yn parhau i fodoli ynghylch y swyddfeydd, offer TG a mannau cyhoeddus, gyda'r angen i barhau i gynllunio ar gyfer y Cronfeydd wrth Gefn Prosiectau Mawr, yn ychwanegol at y gwariant ymrwymedig ar doiledau cyhoeddus a goleuadau Nadolig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**149. SESIWN HOLI AC ATEB**

Nid oedd gan y cyhoedd a oedd yn bresennol unrhyw gwestiynau i'r aelodau.

**150. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**151. GWEITHDY BLAENORIAETHAU**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei hadroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn gofyn am benodi 'hyrwyddwr' ar gyfer bob un o'r pedwar

blaenoriaeth a bennwyd gan y Cyngor Tref, yn dilyn y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorwyr K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, Ms R. S. Roberts ac A. J. Rutherford.*

**152. ADLEOLI SWYDDFEYDD Y CYNGOR TREF**

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad cyfrinachol ar lafar ynghylch y datblygiadau.

**153. Y SEFYDLIAD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ddiweddariad cyfrinachol ar lafar ynghylch materion staffio.

**154. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Maer ddiwedd y cyfarfod.

Maer: ……..…………………..

Dyddiad: ……………….………..